BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

At: Yr holl Aelodau

Copi: Yr holl staff cymorth

14 Hydref 2020

Annwyl Aelod,

Cynhaliodd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ei gyfarfod ffurfiol cyntaf fel Bwrdd newydd ar 23 a 24 Medi 2020. Rydym yn ddiolchgar am y croeso cynnes yr ydym eisoes wedi'i gael ac edrychwn ymlaen at gyfarfod a gweithio gyda chi yn ystod ein tymor yn y swydd.

Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Fonesig Dawn Primarolo a Trevor Reaney am eu gwaith ar y Bwrdd dros y pum mlynedd diwethaf. Rwy'n siŵr y byddwch yn ymuno â mi i ddymuno'n dda i'r ddau ohonynt ar gyfer y dyfodol.

Yn ein cyfarfod cyntaf gwnaethom drafod ein trefniadau gweithio a'n blaenraglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod. Gwnaethom benderfyniad pwysig hefyd yn ymwneud â chyflogau'r Aelodau.

Mae'r canlynol yn grynodeb o'n trafodaethau a'n penderfyniadau yn y cyfarfod hwnnw ac ers hynny.

***Covid-19***

Nododd y Bwrdd fod rheoliadau a chanllawiau Cymru o ran cyfyngiadau Covid-19 wedi cael eu diwygio dros yr haf, ac mae cyfnewidioldeb o hyd o ran cyfyngiadau. Ystyriodd y Bwrdd hyn o ran sut y gellir cefnogi Aelodau a'u swyddfeydd. Mae'r Bwrdd o'r farn bod y darpariaethau sydd ar waith, ar hyn o bryd, yn ddigonol. Fodd bynnag, hyd y gellir rhagweld, bydd y Bwrdd yn adolygu'r sefyllfa a'r cymorth sydd ar gael i Aelodau a'u swyddfeydd ym mhob cyfarfod er mwyn sicrhau ei fod yn briodol, ac os bydd amgylchiadau'n newid, gall y Bwrdd benderfynu'n gyflym.

Cytunodd y Bwrdd i roi eglurder pellach ynghylch dyddiad gorffen y Lwfans Gweithio Gartref. Ar 2 Gorffennaf, cytunodd y Bwrdd ar barhau â'r lwfans hyd nes y bydd rheoliadau Llywodraeth Cymru yn llacio'r cyfyngiadau ar staff nad ydynt yn weithwyr allweddol. O ystyried y pandemig parhaus, a'r newidiadau diweddar i'r cyfyngiadau ar gyfer cyfnodau

clo lleol, mae'r Bwrdd wedi cytuno y bydd y Lwfans Gweithio Gartref yn dod i ben pan gaiff y Pumed Senedd ei diddymu.

Yn olaf, ystyriodd y Bwrdd y Gronfa Cyfarpar Sgrîn Arddangos (DSE) a gaeodd ar 25 Medi 2020. Os oes angen i Aelodau gynnal asesiad DSE, fe'u hatgoffir bod teclyn ar-lein ar gael iddynt ei gynnal gartref. Bellach, bydd unrhyw gostau sy'n gysylltiedig ag addasiadau yn cael eu talu o'u Lwfans Costau Swyddfa.

Bydd y Bwrdd yn parhau i adolygu'r sefyllfa. Fel bob amser, mae'r Bwrdd yn barod i gefnogi Aelodau yn y cyfnod eithriadol ac ansicr hwn.

***Penderfyniad eithriadol y Bwrdd mewn perthynas â newidiadau i gyflogau'r Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol***

Fel y gwyddoch, ar 24 Medi, gwnaeth y Bwrdd benderfyniad eithriadol yn ei gyfarfod ynglŷn â chyflogau'r Aelodau. Mae manylion penderfyniad y Bwrdd ynghylch y mater hwn wedi'u cynnwys yn ein llythyr atoch (dyddiedig 29 Medi) ac ar **wefan** y Senedd.

Fel y nodwyd yn ein llythyr atoch, mae'r Bwrdd yn glir na fydd y penderfyniad hwn yn achub y blaen ar unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol ynghylch mynegeio cyflogau'r Chweched Senedd. Mae'r Bwrdd yn bwriadu trafod y ddarpariaeth mynegeio cyflogau sydd wedi'i chynnwys yn y Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau yn y Chweched Senedd (Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd) yn ei gyfarfod nesaf ym mis Tachwedd. Byddwn yn ysgrifennu atoch eto yn dilyn y cyfarfod os ydym yn bwriadu cynnig unrhyw newidiadau.

***Blaenraglen waith ar gyfer 2020-21***

Cytunodd y Bwrdd i ystyried sawl mater arall o ran y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd, gan gynnwys:

- Costau swyddfa;
- Costau llety preswyl;
- Y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol;
- Costau offer swyddfa a ariennir yn ganolog;
- Contractau staff cymorth;
- Darpariaeth diogelwch ar gyfer yr Aelodau;
- Cynllun pensiwn staff cymorth yr Aelodau;
- Trefniadau o ran teithio i'r UE.

Bydd y Bwrdd yn ystyried y materion hyn yn fanylach ym mis Tachwedd gyda'r bwriad o gyhoeddi dogfen ymgynghori yn nodi unrhyw newidiadau arfaethedig cyn toriad y Nadolig.

***Dulliau o weithio***

Trafododd y Bwrdd ei drefniadau gwaith hefyd yn ystod ei dymor yn y swydd, o ystyried argymhellion yr adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd blaenorol.  Mae hyn yn cynnwys sut mae'r Bwrdd yn ymgysylltu â’r Aelodau a staff cymorth.

I'r perwyl hwn, cytunodd y Bwrdd i drefnu cyfarfodydd gyda'r Grwpiau Cynrychiolwyr Staff Cymorth ac Aelodau cyn gynted â phosibl. Mae'r Bwrdd yn awyddus i barhau â'r cydberthnasau gwaith cadarnhaol a sefydlwyd gyda'r Grwpiau ac mae'n edrych ymlaen at ymgysylltu â hwy'n rheolaidd.

Trafododd y Bwrdd hefyd sut y mae'n ymgysylltu â rhanddeiliaid a'i brosesau ar gyfer ymgynghori â hwy. Bydd y Bwrdd yn adolygu'r prosesau hyn wrth iddo fwrw ymlaen â'i waith dros y misoedd nesaf. Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw awgrymiadau y dylai'r Bwrdd eu hystyried, rhowch wybod i ni drwy'r ysgrifenyddiaeth.

Gobeithio bod y diweddariad hwn wedi bod yn ddefnyddiol i chi. Fel y nodwyd yn ein llythyr ar 29 Medi, ein bwriad yw parhau i ddarparu diweddariadau o'r fath yn dilyn cyfarfodydd, a sicrhau bod y llythyr hwn ar gael i'r cyhoedd drwy ein gwefan. Os hoffech roi unrhyw adborth ynghylch unrhyw un o’r materion uchod, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Er fy mod yn cadeirio’r Bwrdd ar adeg pryd mae’n anodd cwrdd wyneb yn wyneb, rwyf bob amser yn fodlon cwrdd ag Aelodau unigol, ac rwy’n gobeithio cwrdd â chynifer ohonoch ac y gallaf maes o law, o bell neu fel arall. Os hoffech drafod unrhyw fater â mi, cysylltwch ag ysgrifenyddiaeth y Bwrdd drwy anfon neges at **taliadau@senedd.cymru** i wneud trefniadau.

Pob dymuniad da, a chadwch yn ddiogel,

**Dr Elizabeth Haywood**

**Cadeirydd, Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**

BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.